Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 20 Gorffennaf 2016

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 26 GORFFENNAF 2016** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2016 (copi'n amgaeedig).

**5 RHAN 9 O DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014 - BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL** (Tudalennau 15 - 26)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol, Oedolion a Gwasanaethau Plant (copi'n amgaeedig) yn nodi'r gofynion i sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ym mhob rhanbarth bwrdd iechyd yng Nghymru, a'r camau sy'n cael eu cymryd i sefydlu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hwn.

**6 POLISÏAU CYFLOGAETH A TGCH** (Tudalennau 27 - 116)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Barbara Smith, Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Thai (copi'n amgaeedig) yn cyflwyno nifer o bolisïau cyflogaeth ar gyfer mabwysiadu.

**7 STRATEGAETH AR GYFER ATAL A CHANFOD TWYLL, LLYGREDIGAETH A LLWGRWOBRWYAETH** (Tudalennau 117 - 160)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Barbara Smith, Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Thai (copi'n amgaeedig) yn cyflwyno'r strategaeth ddiwygiedig ar gyfer atal a chanfod twyll, llygredigaeth a llwgrwobrwyaeth, i'w gymeradwyo.

**8 ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI TRYSORLYS 2015/16** (Tudalennau 161 - 176)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau (copi'n amgaeedig) yn diweddaru'r aelodau ar berfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys ac yn dangos cydymffurfiad â chyfyngiadau'r trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus yn ystod 2015/16.

**9 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 177 - 194)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad (copi'n amgaeedig) yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd ar strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni.

**10 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET** (Tudalennau 195 - 198)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sydd wedi'i hamgáu, a nodi'r cynnwys.

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem fusnes ganlynol yn cael ei thrafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

**11 DATBLYGIAD ADDYSGOL GLASDIR (ADEILADAU YSGOL A CHYFLEUSTERAU NEWYDD AR GYFER YSGOL STRYD Y RHOS AC YSGOL PEN BARRAS, RHUTHUN)** (Tudalennau 199 - 206)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol dros Addysg (copi'n amgaeedig) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu'r contract adeiladu ar gyfer datblygiad addysgol Glasdir.

**12 TYN Y CELYN, LLANBEDR DYFFRYN CLWYD, RHUTHUN** (Tudalennau 207 - 216)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad (copi’n amgaeedig) yn argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo datganiad y fferm a'r tir fel gweddill i anghenion a'i waredu wedi hynny.

**13 LODGE FARM, DINBYCH** (Tudalennau 217 - 226)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad (copi’n amgaeedig) yn argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo datganiad y fferm a'r tir fel gweddill i anghenion a'i waredu wedi hynny.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Hugh Evans
Julian Thompson-Hill
Eryl Williams
Bobby Feeley
Hugh Irving
Huw Jones
Barbara Smith
David Smith

**COPIAU I’R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a’r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned